



Diogelu Gwent Gwent Safeguarding

Canllawiau Ymarfer Amlasiantaeth ar
gyfer Ymdrin ag Achosion o Gam-drin
Domestig i Ddiogelu Oedolion ag
Anghenion Gofal a Chymorth



Cadarnhawyd gan y Bwrdd
Rhagfyr 2022

Grŵp Protocolau a
Gweithdrefnau

Dyddiad Adolygu:
Rhagfyr 2023

Cynnwys

TUDALEN

1	Cyflwyniad	3
2	Pwrpas	6
3	Amcanion	6
4	Effeithiau cam-drin domestig ar oedolion ag anghenion gofal a chymorth	7
5	Cyfrifoldebau'r Heddlu	7
6	Awdurdodau Lleol	13
	Atodiad 1:	
	Manylion cyswllt ac atgyfeirio	17

1. CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ychwanegol i gynorthwyo Heddlu Gwent, yr Awdurdodau Lleol a, lle bo'n briodol, gwasanaethau lechyd i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â materion Cam-drin Domestig lle maent yn effeithio ar oedolion ag anghenion gofal a chymorth.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 dylid cyfeirio pryderon diogelu at adrannau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol gan mai nhw sy'n gyfrifol am gytuno bod Dyletswydd Adran 126 i gynnal ymholiadau yn angenrheidiol. Os oes angen ymholiadau Adran 126, gall yr awdurdod lleol gynnal yr ymholiadau neu ofyn am asiantaeth/gwasanaeth arall mwy priodol i gynnal yr ymholiadau ar eu rhan, e.e., os yw trosedd wedi'i chyflawni neu'n ymddangos fel pe bai wedi'i chyflawni, bydd yr Heddlu'n cynnal ymchwiliad troseddol, gall asiantaethau/gwasanaethau eraill gyfrannu at y broses i sicrhau bod dyletswyddau Adran 126 yn cael eu cyflawni.

Mae'r egwyddor o ymholiad diogelu yn greiddiol i weithio gyda'r rhai sydd ag anghenion gofal a chymorth sy'n ddiodeffwyr trais/cam-drin domestig. Bydd angen i Awdurdodau Lleol ystyried y farn a fynegwyd gan y diodeffwr os yw'n amodol ei fod yn gwneud penderfyniad cynwysedig ac nad yw dan orfodaeth. Gall hyn arwain at atal cydsyniad i rannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill; dan yr amgylchiadau hyn dylid ymgynghori ynglŷn â'r senario gyda'r Heddlu yn unig i hysbysu asesiad risg yr Arweinwyr Diogelu Penodedig (DSL) os credir bod trosedd wedi'i chyflawni ar yr adeg yr adroddir am y pryder.

Yr Oedolyn sy'n wynebu risg: Mae dyletswyddau diogelu'n berthnasol i oedolyn sydd: ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio) ac sy'n profi, neu mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso; ac o ganlyniad i'r anghenion gofal a chymorth hynny yn methu ag amddiffyn eu hunain rhag y risg o gamdriniaeth neu esgeulustod, neu rhag y profiad o gam-drin neu esgeulustod.

[Arweiniad Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Pobl a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#):

Pwy all gael ei ystyried ar gyfer ymholiadau statudol ac anstatudol?

Gall hyn gynnwys pobl ag anableddau dysgu, problemau iechyd meddwl, pobl hŷn, a phobl ag anabledd neu nam corfforol. Gall hefyd gynnwys oedolion sy'n ddiodeffwyr arferion gofal camdriniol; esgeulustod a hunan-esgeulustod; cam-drin domestig; troseddau casineb; anffurfio organau cenhedlu benywod; priodas dan orfod; caethwasiaeth fodern; masnachu pobl ac ymddygiad cam-drin gwrthgymdeithasol. Gall hefyd gynnwys unigolyn a allai fod yn agored i niwed o ganlyniad i'w rôl fel gofalwr i'r oedolyn sy'n wynebu risg mewn perthynas ag unrhyw un o'r uchod.

Gall angen oedolyn am gymorth ychwanegol i amddiffyn ei hun gael ei gynyddu pan gaiff ei gymhlethu gan ffactorau ychwanegol, megis eiddilwch corfforol neu salwch cronig, nam ar y synhwyrâu, ymddygiad heriol, problemau cyffuriau neu alcohol, problemau cymdeithasol neu emosiynol, tlodi neu ddigartrefedd ac mae'n bwysig nodi

y gall bregusrwydd amrywio.

Diffiniad o drais a cham-drin domestig

Diffinnir cam-drin domestig fel unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o achosion o gam-drin corfforol neu rywiol, ymddygiad treisgar neu fygythiol, ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi, cam-drin economaidd, cam-drin seicolegol, emosiynol neu gam-drin arall rhwng y rhai hynny sy'n 16 oed a hŷn ac sy'n gysylltiedig yn bersonol â'i gilydd. Mae'r ddeddf hefyd yn cydnabod cam-drin ar ôl gwahanu trwy ymddygiad gorfodol a rheolaethol. Nid yw bellach yn ei gwneud yn ofynnol i gyflawnwyr a dioddefwyr naill ai fod mewn perthynas neu barhau i fyw gyda'i gilydd.

Ymddygiad Rheolaethol

Ymddygiad rheolaethol yw amrywiaeth o weithredoedd sydd wedi'u cynllunio i wneud person yn israddol a/neu'n ddibynnol drwy ei ynysu oddi wrth ffynonellau cymorth, manteisio ar eu hadnoddau a'u gallu er budd personol, eu hamddifadu o'r cyfryngau sydd eu hangen ar gyfer annibyniaeth, ymwrthedd a dianc a rheoleiddio eu hymddygiad bob dydd.

Ymddygiad gorfodaethol

Mae ymddygiad gorfodaethol yn weithred neu'n batrwm o weithredoedd o ymosod, bygwth, bychanu a brawychu neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu godi ofn ar y dioddefwr.

Mae hefyd yn bwysig cofio bod y rhan fwyaf o ymchwil hefyd yn awgrymu bod cam-drin domestig yn digwydd ym mhob rhan o gymdeithas, beth bynnag fo'u hil, diwylliant, cenedligrwydd, crefydd, rhywioldeb, anabledd, oedran, dosbarth neu lefel addysgol.

Mae'r diffiniad yn cynnwys digwyddiadau lle gall aelodau o'r teulu estynedig gydoddef neu rannu'r patrwm cam-drin e.e., priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod a throseddau wedi'u rhesymoli fel cosbi menywod am ddod â 'gwarth' ar y teulu.

Mae adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 (y drosedd o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi mewn perthynas agos neu deuluol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1)(b), ar ôl yn "gysylltiedig yn bersonol" mewnosoder "(gweler is-adran (6))".

(3) Hepgorer is-adran (2).

(4) Yn lle is-adran (6) rhodder—

(5) Yn is-adran (7), yn lle "is-adran (6)" rhodder "isadrannau (6) a (6A)".

(6) Mae A a B yn "gysylltiedig yn bersonol" os yw unrhyw un o'r canlynol yn gymwys—

(a) eu bod, neu wedi bod, yn briod â'i gilydd;

(b) eu bod, neu wedi bod, yn bartneriaid sifil i'w gilydd;

(c) eu bod wedi cytuno i briodi ei gilydd (pa un a yw'r cytundeb wedi'i derfynu ai peidio);

- (ch) eu bod wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth sifil (pa un a yw'r cytundeb wedi'i derfynu ai peidio);
- (d) eu bod, neu wedi bod, mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd;
- (dd) bod gan bob un, neu mae amser wedi bod, pan fu gan bob un ohonynt, berthynas rhiant mewn perthynas â'r un plentyn (gweler is-adran (6A));
- (e) eu bod yn berthnasau.
- (6A) At ddibenion is-adran (6)(dd) mae gan berson berthynas rhiant mewn perthynas â phlentyn—
 - (a) os yw'r person yn rhiant i'r plentyn, neu
 - (b) bod gan y person gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

Stelcio ac aflonyddu mewn digwyddiadau cam-drin domestig

Mae stelcio yn batrwm o ymddygiad mynych, digroeso sy'n achosi i ddioddefwyr deimlo'n ofidus neu'n ofnus. Gall gael ei gyflawni gan ddynion neu fenywod. Mae'n thema sy'n codi dro ar ôl tro mewn llawer o laddiadau domestig, ac mae'n ddangosydd risg uchel.

Mae Stelcio yn aml yn cael effaith emosiynol enfawr ar y rhai y mae'n effeithio arnynt. Gall arwain at deimladau o iselder, gorbryder a hyd yn oed anhwylder straen wedi trawma. Mae'n drosedd seicolegol yn ogystal â chorfforol.

Gall Stelcio fod yn uniongyrchol; trwy wrthdaro neu drwy ddilyn y dioddefwr. Gellir ei gynnal hefyd dros y ffôn, drwy'r post neu ar-lein. Gall fod yn anuniongyrchol; wedi'i hwyluso trwy drydydd parti gan gynnwys teulu, cymdeithion a chysylltiadau gwaith.

Gall ymchwiliadau cam-drin domestig gynnwys troseddau tebyg i aflonyddu ac i'r gwrthwyneb. Gall aflonyddu fod yn rhan uniongyrchol o'r cam-drin domestig neu gall ddigwydd oherwydd gweithredoedd pobl sy'n gysylltiedig â'r camdriniwr.

Lle mae Stelcio yn amlwg, mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei nodi a'i drin yn briodol. Rhaid cynnal ymateb diogelu gwell ynghyd ag ymyriad prydlon, cadarn ac effeithiol gyda'r cyflawnwr.

Gall yr Heddlu ystyried gosod amodau mechnïaeth llym lle caniateir mechnïaeth. Dylai Ymchwilyr yr Heddlu sicrhau bod erlynwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn mynd ar drywydd rhoi gorchymyn atal yn dilyn collfarn neu ryddfarn yn y llys.

Dylid gofyn y 12 cwestiwn ychwanegol o'r [achosion S-DASH ar gyfer achosion o Stelcio ac Aflonyddu \(2009\)](#) i ddioddefwyr Stelcio ac aflonyddu mewn digwyddiad domestig Mae hyn er mwyn sicrhau y gellir cynnal asesiad risg cywir a chael dealltwriaeth lawn o amgylchiadau'r dioddefwr er mwyn diogelu ac ymyrryd yn briodol.

Gellir cael cyngor i'r rhai sydd wedi cymryd rhan mewn ymddygiad Stelcio trwy gysylltu â'r [Clinig Stelcio Cenedlaethol](#) ar 020 8702 6104 neu e-bostio NationalStalkingClinic@nhs.net Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau hyn a phwy all wneud atgyfeiriadau ar gael ar-lein yn [Cyngor a chymorth i bobl sy'n dioddef o Stelcio](#) neu ar y Llinell Gymorth Genedlaethol Stelcio 0808 802 0300 Mae gwybodaeth leol ar gael yma [Cymorth a Chyngor - Gwent Safeguarding](#)

2. PWRPAS

Nod y canllaw ymarfer hwn yw nodi arferion cydweithio effeithiol ar gyfer pob asiantaeth pan fydd Cam-drin Domestig yn effeithio ar oedolyn sy'n wynebu risg.

Diben y canllaw ymarfer hwn yw nodi safon gwasanaeth gofynnol pan fydd angen rhywfaint o gymorth ar oedolyn sy'n wynebu risg i'w amddiffyn rhag Cam-drin Domestig ac i nodi rhwydweithiau cymorth priodol.

3. AMCANION

Amcanion y canllaw ymarfer hwn yw:

- a) Darparu arweiniad i bob asiantaeth wrth gyfeirio achosion o bryder at wasanaeth priodol (gweler adran 1.2), cyfeiriwch at weithdrefnau Diogelu Cymru.
- b) Darparu arweiniad sy'n galluogi asiantaethau i ddefnyddio dull cyson o rannu gwybodaeth.
- c) Gosod safon gwasanaeth gofynnol ar gyfer ymateb i oedolion mewn perygl a all fod angen eu hamddiffyn a Gwasanaethau Cefnogi eraill oherwydd Cam-drin Domestig.
- ch) Cynnwys egwyddorion Llesiant fel y'u disgrifir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- d) Mae ymddygiad gorfodaethol yn weithred neu'n batrwm o weithredoedd o ymosod, bygwth, bychanu a brawychu neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu godi ofn ar y dioddefwr. Mae ymddygiad rheoli yn amrywiaeth o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud person deimlo'n israddol a/neu'n ddibynnol drwy ei ynysu oddi wrth ffynonellau cymorth, manteisio ar eu hadnoddau a'u gallu er budd personol, eu hamddifadu o'r modd sydd eu hangen ar gyfer annibyniaeth, ymwrthedd a dianc a rheoleiddio eu hymddygiad bob dydd.

Mae'r canllaw ymarfer hwn yn cydnabod:

- a) Bydd pob asiantaeth bob amser yn ceisio gweithredu er lles yr oedolion sy'n wynebu risg y maent yn ymwneud â nhw.
- b) Mae pob asiantaeth yn rhwym i ddyletswydd i ddiogelu cyfrinachedd deunydd a rennir. Mae Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018) yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn gyfreithlon. Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod yn rhwystr i rannu gwybodaeth. Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir i rannu gwybodaeth gyfrinachol fod â sail gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn gyfiawn ac yn gymesur â'r Ddeddf Hawliau Dynol (1998) (egwyddorion JAPAN Cyfiawn,

Awdurdodedig, Cymesur, Archwiliadol ac Angenrheidiol). Bydd yr Heddlu yn defnyddio'r acronym canlynol: PLAN – Cymesur, Cyfreithiol, Atebol ac Angenrheidiol.

- c) Bydd pob asiantaeth yn defnyddio deunydd a rennir at y dibenion y'i datgelir yn unig ac nid am resymau eilaidd.
- ch) Mae'n bwysig bod oedolion sy'n wynebu risg yn deall y rhesymau pam y gallai eu gwybodaeth gael ei rhannu a sut y bydd y gwasanaeth yn trin y data sensitif a phersonol a roddir iddo. Eglurwch fod pob achos yn unigol ond, yn gyffredinol, nid oes angen cydsyniad ar y gwasanaeth i rannu gwybodaeth lle mae'r oedolyn neu ei blant mewn perygl mawr o niwed difrifol.

4. EFFEITHIAU CAM-DRIN DOMESTIG AR OEDOLION AG ANGHENION GOFAL A CHYMORTH

Mae'n bwysig cydnabod y gall oedolion ag anghenion gofal a chymorth fod yn ddiodefwrwr Cam-drin Domestig eu hunain neu gael eu heffeithio gan ei fod yn digwydd yn eu cartref. Mae hyn yn debygol o gael effaith ddifrifol ar eu lles corfforol a meddyliol.

Mae [Spotlight #2: Disabled people and domestic abuse | Safelives](#) wedi'i gynnal gyda menywod yn bennaf, ac mae'r canfyddiadau'n cynnwys os ydych yn anabl, bod hyn yn effeithio'n gryf ar natur, graddau ac effaith cam-drin, ei fod yn arbennig o ddifrifol pan fo'r partner sy'n cam-drin hefyd yn ofalwr, bod gan y gofalwr gryn bŵer a rheolaeth, a bod y diodefwr yn dibynnu arno. Er y cydnabyddir bod gofalwyr weithiau dan bwysau ni ddylid defnyddio hyn i liniaru trais neu gamdriniaeth lle mae pŵer a rheolaeth wedi'i nodi dros yr oedolyn.

Lle mae oedolion mewn perygl yn ddiodefwrwr Cam-drin Domestig; efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt i gynllunio eu dyfodol. Gall y cam-drin neu'r bygythiad o gam-drin barhau ar ôl i'r diodefwr wahanu oddi wrth y camdriniwr. Mae'n bwysig sicrhau bod pob oedolyn sy'n wynebu risg yn y sefyllfa hon yn cael cymorth priodol i'w alluogi i gynnal ei ddiogelwch personol.

Lle nodir cam-drin domestig, dylid hefyd ystyried a oes gan y cyflawnwr unrhyw anghenion am ofal a chymorth, anabled neu broblem galluedd a allai fod yn cyfrannu at yr achosion o drais domestig neu gam-drin. Dylai hyn gynorthwyo ymarferwyr i fynd i'r afael ag anghenion yr oedolyn sy'n wynebu risg mewn sefyllfa o gam-drin domestig neu drais.

Gellir gofyn am ymgynghoriad a chyngor gan y ganolfan diogelu amlasiantaeth.

5. CYFRIFOLDEBAU'R HEDDLU

Bydd Heddlu Gwent yn gweithio gyda phartneriaid amlasiantaeth i sicrhau mai'r blaenoriaethau pennaf wrth ymdrin â phob digwyddiad o gam-drin domestig yw:

- a) Diogelu bywydau oedolion a phlant sydd mewn perygl o gam-drin domestig.
- b) Sicrhau, diogelu a chyfeirio at adnoddau cymorth cenedlaethol a lleol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig.
- c) Cofnodi pob digwyddiad o gam-drin domestig.
- ch) Hwyluso gweithredu effeithiol yn erbyn troseddwr fel y gellir eu dal yn atebol drwy'r system cyfiawnder troseddol.
- d) Nid yw cam-drin domestig yn drosedd benodol. Defnyddir y term i ddisgrifio ystod o ddigwyddiadau sy'n digwydd mewn amgylchiadau penodol lle gall y dioddefwyr fod o unrhyw ryw ac o unrhyw grŵp ethnig, fel y cyflawnwr. Bydd Heddlu Gwent yn ymateb i holl ddioddefwyr cam-drin domestig fel y gallant dderbyn gwasanaeth o'r ansawdd priodol yn unol â'u hanghenion unigol. Bydd pob honiad yn cael ei ymchwilio'n briodol, a'r cyflawnwyr yn cael eu dal yn atebol drwy'r system cyfiawnder troseddol.
- dd) Ystyried hysbysiad/gorchymyn amddiffyn cam-drin domestig os bodlonir y meini prawf.

Yn dilyn adroddiad o ddigwyddiad cam-drin domestig, cyfrifoldeb Heddlu Gwent yw rhannu eu pryderon ag asiantaethau partner. Lle nodir bod gan y dioddefwr anghenion gofal a chymorth, bydd yr oedolion hynny y bernir eu bod mewn perygl yn cael eu hatgyfeirio ar unwaith drwy'r hwb diogelu amlasiantaeth.

Cyflwynir adroddiad i'r Awdurdodau Lleol (Gweler 1.2) ym mhob achos lle:

- Credir bod oedolyn mewn perygl a/neu blant cysylltiedig yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol.
- Credir bod oedolyn mewn perygl a/neu blant angen mwy o wasanaethau cymorth.

Os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch yr angen am adroddiad, gellir ceisio ymgynghoriad drwy Wasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol perthnasol

Hysbysiadau/Gorchmynion Diogelu Trais Domestig (DVPN) (DVPO)

Gellir defnyddio'r rhain yn dilyn digwyddiad domestig lle mae risg barhaus o drais i'r dioddefwr er mwyn darparu amddiffyniad tymor byr i'r dioddefwr pan nad yw arestio wedi digwydd ond bod angen gweithredu'n gadarnhaol, neu pan fo arestio wedi digwydd, ond mae ymchwiliad ar y gweill. Yng Ngwent yr opsiwn a ffafrir fwyaf yw arestio troseddwr ac ymchwilio i honiad troseddol. Gellir rhoi DVPN i gyflawnwr i roi mesurau amddiffynnol ar waith yn syth ar ôl digwyddiad trais domestig lle nad oes digon o dystiolaeth i gyhuddo cyflawnwr a darparu amddiffyniad i ddioddefwr trwy amodau mechniaeth.

Cynlluniwyd y broses i roi lle i ddioddefwyr anadlu trwy roi seibiant dros dro o'u camdriniwr a chaniatáu atgyfeirio i wasanaethau cymorth heb ymyrraeth. Gall y pwynt pan fydd dioddefwyr yn ceisio cymorth neu'n gadael eu camdriniwr fod pan fyddant yn wynebu'r risg fwyaf. Gellir dilyn y broses DVPN heb gefnogaeth weithredol y dioddefwr, neu hyd yn oed yn erbyn ei ddymuniadau, os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol i'w hamddiffyn rhag trais neu fgygythiad o drais. Nid oes rhaid i'r dioddefwr fynd i'r llys ychwaith. Gall hyn helpu trwy dynnu cyfrifoldeb oddi ar y dioddefwr am gymryd camau gweithredu yn erbyn eu camdriniwr.

I ddechrau, gall yr Heddlu gyflwyno DVPN ac yna rhaid gwneud cais i'r llys am DVPO o fewn 48 awr. Os bydd y llys yn cyhoeddi DVPO gall fod mewn grym rhwng o leiaf 14 diwrnod ac uchafswm o 28 diwrnod, gan ddechrau ar y dyddiad y caiff ei wneud gan y llys ynadon.

Dylid rhoi gwybod i'r Heddlu am achosion o dorri DVPN. Gall swyddogion heddlu arestio person sydd wedi cael DVPN heb warant os oes sail resymol dros gredu bod y cyflawnwr wedi torri amodau'r DVPN. Rhoddir ystyriaeth i gyflawni troseddau pellach a allai arwain at arestio'r sawl a ddrwgdybir a'i ymchwilio am y troseddau pellach hyn hefyd.

Mae pŵer arestio ynghlwm wrth dorri DVPO. Felly, dylid hysbysu'r heddlu am unrhyw dor-rheolau sydd â'r pŵer i arestio a gosod y sawl a ddrwgdybir gerbron llys ynadon. Mae torri DVPO yn doriad sifil o orchymyn llys. Y gosb am dorri gorchymyn sifil yw £50 am bob diwrnod y mae'r person yn methu â chydymffurfio â'r gorchymyn, hyd at uchafswm o £5000 neu 2 fis o garchar. Rhoddir ystyriaeth i gyflawni troseddau pellach a allai arwain at arestio'r sawl a ddrwgdybir a'i ymchwilio am y troseddau pellach hyn hefyd.

Cynllun Datgelu Trais Domestig (DVDS) (Cyfraith Clare). Nod y cynllun hwn yw rhoi mecanwaith ffurfiol i aelodau'r cyhoedd wneud ymholiadau am unigolyn y maent mewn perthynas ag ef, neu sydd mewn perthynas â rhywun y maent yn ei adnabod, ac y gallai fod pryder fod gan yr unigolyn gofnod o gam-drin.

Os bydd gwiriadau'r Heddlu'n dangos bod gan yr unigolyn gofnod o droseddu camdriniol, neu os oes gwybodaeth arall i ddangos bod y person rydych chi'n ei adnabod mewn perygl, bydd yr Heddlu'n ystyried rhannu'r wybodaeth hon gyda'r person(au) sydd yn y sefyllfa orau i amddiffyn y dioddefwr posibl. Gall unrhyw drydydd parti pryderus, megis rhiant, cymydog, ffrind neu weithiwr proffesiynol wneud cais, nid dim ond y dioddefwr posibl.

Ni fyddai trydydd parti sy'n gwneud cais o reidrwydd yn derbyn y wybodaeth am yr unigolyn dan sylw. Gall fod yn fwy priodol i rywun arall dderbyn y wybodaeth megis y dioddefwr posib neu berson arall sydd yn y sefyllfa orau i amddiffyn y dioddefwr posib, os bernir eu bod yn oedolyn mewn perygl. Os yw oedolyn mewn perygl yn agored i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yna dylid defnyddio proses wirio arferol yr Heddlu.

CYDSYNIAD A DIOGELU DATA

Mae [Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018](#) yn diogelu preifatrwydd personol ac yn cynnal hawliau unigolion.

Mae'r GDPR yn cynnwys chwe sail gyfreithlon ar gyfer rhannu gwybodaeth. Nodir y seiliau cyfreithlon ar gyfer prosesu yn Erthygl 6 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Y rhai sy'n berthnasol i'r polisi hwn yw:

- a) Cydsyniad: mae'r unigolyn wedi rhoi cydsyniad clir i chi brosesu ei ddata personol at ddiben penodol.
- b) Rhwymedigaeth gyfreithiol: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i chi gydymffurfio â'r gyfraith.
- c) Buddiannau hanfodol: mae'r prosesu'n angenrheidiol i ddiogelu bywyd rhywun.
- ch) Tasg gyhoeddus: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i chi gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer eich swyddogaethau swyddogol, ac mae gan y dasg neu'r swyddogaeth sail gyfreithiol glir.

Dylid ceisio cydsyniad ym mhob achos lle mae'n ddiogel gwneud hynny. Lle na ellir cael cydsyniad, gellir rhannu gwybodaeth heb gydsyniad, o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, pan fo'r unigolyn yn blentyn neu'n oedolyn sy'n wynebu risg; os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny, lle mae hynny er budd sylweddol y cyhoedd, a bod angen rhannu er mwyn:

- i. amddiffyn unigolyn rhag esgeulustod neu niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol; neu
- ii. diogelu lles corfforol, meddyliol neu emosiynol unigolyn

Mae Erthygl 8 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn datgan bod gan bawb yr hawl i'w fywyd preifat a theuluol gael ei barchu, ac na fydd Awdurdod Cyhoeddus yn ymyrryd â'r hawl hon ac eithrio yn unol â'r gyfraith:

- a) Er budd diogelwch cenedlaethol
- b) Diogelwch y cyhoedd
- c) Lles economaidd y wlad
- ch) Atal anhrefn neu drosedd
- d) Diogelu iechyd neu foesau
- dd) Diogelu hawliau neu ryddid pobl eraill.

Dylai gweithwyr rheng flaen a gwirfoddolwyr bob amser rannu pryderon diogelu yn unol â pholisi eu sefydliad, fel arfer gyda'u rheolwr llinell neu arweinydd diogelu yn y lle cyntaf, ac eithrio mewn sefyllfaoedd brys. Cyn belled nad yw'n cynyddu'r risg i'r unigolyn, dylai'r aelod o staff esbonio ei gyfrifoldeb i rannu'r pryder gyda'i reolwr.

Bydd angen i reolwyr wneud penderfyniadau ynghylch rhannu gwybodaeth ag asiantaethau allanol, gan gynnwys yr heddlu a'r awdurdod lleol. Efallai na fydd unigolion yn cydsynio i rannu gwybodaeth ddiogelu am nifer o resymau. Er enghraifft, gallant fod yn ofnus o ddial, efallai eu bod yn ofni colli rheolaeth, efallai na fyddant yn ymddiried yn y gwasanaethau cymdeithasol neu bartneriaid eraill, neu efallai eu bod yn ofni y bydd eu perthynas â'r camdriniwr yn cael ei niweidio. Gall sicrwydd a chefnogaeth briodol ynghyd â pherswâd ysgafn helpu i newid eu barn ynghylch a yw'n well rhannu gwybodaeth.

Os bydd person yn gwrthod ymyrraeth i'w gefnogi â phryder diogelu, neu'n gofyn i wybodaeth amdano beidio â chael ei rhannu â phartneriaid diogelu eraill, dylid parchu ei ddyddiadau. Fodd bynnag, mae nifer o amgylchiadau lle gall yr ymarferydd ddiystyru penderfyniad o'r fath yn rhesymol, gan gynnwys:

- Nid oes gan y person y galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw – rhaid archwilio hyn yn briodol a'i gofnodi yn unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.
- Mae pobl eraill, neu fe allent fod, mewn perygl, gan gynnwys plant.
- Gallai rhannu'r wybodaeth atal trosedd.
- Mae gan y camdriniwr honedig anghenion gofal a chymorth a gall fod mewn perygl hefyd.
- Trosedd difrifol wedi'i chyflawni.
- Mae staff yn gysylltiedig.
- Mae gan y person y galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw, ond efallai ei fod dan orfodaeth neu'n cael ei orfodi.
- Mae'r risg yn afresymol o uchel ac yn bodloni'r meini prawf ar gyfer atgyfeiriad amlasiantaeth i gynhadledd asesu risg.
- Gorchymyn llys neu awdurdod cyfreithiol arall wedi gofyn am y wybodaeth.

Fodd bynnag, ni ddylid ceisio cydsyniad lle:

- a) Byddai'n rhwystro atal neu ganfod trosedd neu ddal troseddwr.
- b) Byddai'n rhoi gwrthrych yr adroddiad neu oedolion eraill mewn perygl o niwed.
- c) Mae angen adroddiad brys, ac nid yw'n bosibl nac yn briodol ceisio cydsyniad, h.y., achosion lle mai'r camdrinwyr honedig yw'r unig bersonau a all roi cydsyniad.

Mae'r gwersi a ddysgwyd o adolygiadau dynladdiad domestig yn datgelu bod methu â rhannu gwybodaeth hanfodol yn ffactor sy'n cyfrannu at lawer o achosion. Gall

methiannau o'r fath arwain at gam-drin difrifol, niwed ac mewn rhai achosion marwolaeth. Nid yw'r rheolau ynghylch diogelu rhannu gwybodaeth yn ymwneud â ph'un a allwch chi rannu data mewn gwirionedd, ond yn hytrach meddwl ddwywaith am sut rydych chi'n ei rannu.

Yn ogystal, bu adolygiadau diweddar sy'n rhoi pwyslais ar alluedd meddyliol a'r defnydd ohono i gyfiawnhau diffyg gweithredu weithiau mewn rhai sefyllfaoedd. Y 'neges' gyfredol i raddau helaeth yw bod yn rhaid i ymarferwyr ystyried y risgiau posibl o beidio â rhannu gwybodaeth a sicrhau eu bod yn cofnodi eu rhesymeg dros beidio â rhannu; yn strategol ac ar y rheng flaen, mae llawer o bwyll wrth wneud hynny. Mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn deall bod egwyddorion Amddiffyn Oedolion a Phlant yn drech na'r cyfrinachedd.

Mae gan asiantaethau statudol gyfrifoldeb i weithredu i atal trosedd neu gam-drin plant ac oedolion mewn perygl.

Os oes gan ymarferwr bryderon am les yr oedolyn ac yn credu ei fod yn dioddef neu'n debygol o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod, yna mae'n rhaid iddo rannu'r wybodaeth gyda'r Awdurdod Lleol a, neu'r Heddlu os yw'n credu neu'n amau bod trosedd wedi'i chyflawni.

Os yw'r oedolyn sy'n wynebu risg yn atal ei gytundeb i wneud atgyfeiriad, a bod ganddo/ganddi alluedd (yn unol â gofynion Deddf Galluedd Meddyliol 2005) i ddeall y risg, ar ôl cwblhau asesiad risg yn ystod ymholiad diogelu lle rydych yn fodlon nad ydynt yn cael eu bygwth neu o dan orfodaeth, yna dylid parchu dymuniadau a chofnodi penderfyniad. Fodd bynnag, os oes oedolion eraill ag anghenion gofal a chymorth neu blant sy'n wynebu risg, yna dylid cyflwyno adroddiad i'r gwasanaethau cymdeithasol ynghylch y rheini.

Fel y nodir yn [Neddf Galluedd Meddyliol 2005](#), cyfrifoldeb y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yw cadw at holl egwyddorion y Ddeddf. Wrth ystyried cymhwyso MCA 2005, dylid rhoi sylw dyledus i [God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol](#).

1. Rhaid cymryd bod gan berson alluedd oni sefydlir nad oes ganddo alluedd.
2. Nid yw person i'w drin fel pe na bai'n gallu gwneud penderfyniad oni bai bod pob cam ymarferol i'w helpu i wneud hynny wedi eu cymryd heb lwyddiant.
3. Nid yw person i'w drin fel un nad yw'n gallu gwneud penderfyniad dim ond oherwydd ei fod yn gwneud penderfyniad annoeth.
4. Rhaid i weithred a gyflawnir, neu benderfyniad a wneir, o dan y Ddeddf hon dros neu ar ran person sydd heb alluedd gael ei wneud, neu ei wneud, er ei les pennaf.
5. Cyn i'r weithred gael ei chyflawni, neu cyn i'r penderfyniad gael ei wneud, rhaid ystyried a ellir cyflawni'r diben sydd ei angen mor effeithiol mewn ffordd sy'n cyfyngu llai ar hawliau a rhyddid gweithredu'r person.

Serch hynny, mae angen gofal a diwydrwydd dyladwy hyd yn oed pan fernir bod y person yn berson galluog ar faterion o'r fath a risgiau diogelu a nodwyd. Dylid ystyried a ddylid galw ar y Llys Gwarchod (CoP) o fewn ei gyfrifoldeb o awdurdodaeth gynhenid fel y canolwr terfynol mewn perthynas ag achosion cymhleth yn ymwneud â cham-drin domestig.

6. AWDURDODAU LLEOL

Ym mhob sefyllfa o Gam-drin Domestig, rhaid i awdurdodau lleol weithio i gefnogi a chynorthwyo oedolion sy'n wynebu risg ac ystyried rhannu gwybodaeth ag asiantaethau neu wasanaethau eraill i gefnogi ac amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg. Rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried camau cymesur i ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg i'w hamddiffyn rhag cam-drin domestig, yn enwedig lle gallai hyn arwain at niwed sylweddol iddynt hwy eu hunain neu oedolion eraill ag anghenion gofal a chymorth a phlant.

Yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, mae'n gyfrifoldeb ar y Person Diogelu Dynodedig (DSP) yn yr awdurdodau lleol i wneud penderfyniad ynghylch pa gamau i'w cymryd. Byddai hyn yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn dilyn asesiad risg o ddifrifoldeb y cam-driniaeth.

Mae'r canlynol yn benderfyniadau posibl y gellir eu gwneud ar unrhyw adeg yn ystod y broses o gasglu gwybodaeth neu ymholiadau; Canlyniadau (penderfyniadau) ymholiadau a.126 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae pedwar canlyniad i ymholiad. Cyfeirir at y rhain yn Ymdrin ag Achosion Unigol fel 'Penderfyniadau'. Y rhain yw:

- Penderfyniad 1: Diogelu ar unwaith. Mae hyn yn digwydd mewn amgylchiadau pan fo'n rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu, lechyd neu'r gwasanaethau brys weithredu'n gyflym i sicrhau diogelwch uniongyrchol yr oedolyn sy'n wynebu risg neu oedolion/plant eraill sydd mewn perygl.
- Penderfyniad 2: Nid yw'r oedolyn mewn perygl ond efallai fod ganddo anghenion gofal a chymorth. Dylid hysbysu'r unigolyn fel y byddent ar gyfer unrhyw atgyfeiriad arall gan gydnabod y gallai'r person gael ei gyfeirio at asiantaethau neu wasanaethau eraill os yw'n briodol neu efallai y bydd angen asesiad.
- Penderfyniad 3: Oedolyn mewn perygl a chatau i'w hamddiffyn sydd eu hangen (gweler yr adran berthnasol).
- Penderfyniad 4: Nid oes angen unrhyw gamau pellach. Nid yw'r oedolyn mewn perygl ac ni nodwyd unrhyw anghenion gofal a chymorth heb eu diwallu.

Nid yw penderfynu a yw oedolyn mewn perygl wedi cael ei gam-drin a/neu ei esgeuluso yn syml. Efallai y bydd angen dyfarniad ynghylch a yw gweithred o anwaith neu gamwaith wedi arwain at gamdriniaeth neu esgeulustod. Mewn rhai achosion, ailadrodd mân weithredoedd neu anweithiau a fydd gyda'i gilydd yn gyfystyr â chamdriniaeth neu esgeulustod.

Rhaid i'r asiantaeth gwasanaethau cymdeithasol wneud neu gael achos i wneud pa bynnag ymholiadau sydd eu hangen i benderfynu beth sydd angen digwydd a chan bwy. Mae hyn yn gyfystyr ag Ymholiad Adran 126 ffurfiol, i gynorthwyo i wneud y penderfyniad hwn. Mae'n hanfodol bod ymholiadau o'r fath yn cael eu gwneud pan fo'r person yn ddiogel i'w datgelu ac mewn sefyllfa na fydd yn cynyddu'r risg iddo. Bydd angen i'r ymarferydd arweiniol asesu hyn.

Cynhelir yr ymholiadau canlynol:

- a) Barn, dymuniadau, cydsyniad a gallu (lle bo'n berthnasol), yr oedolyn sy'n wynebu risg unwaith y bydd cyswllt ac ymholiad diogelu wedi'i gwneud.
- b) Egluro terfynau eich cyfrinachedd (fel uchod).
- c) Ystyried eiriolwr annibynnol priodol fel IDVA neu EAGM os ydynt yn cael anhawster deall y broses neu os ydynt yn ddioddefwyr cam-drin domestig.
- ch) Casglu gwybodaeth gan sefydliadau eraill. *Os nad yw'r oedolyn sy'n wynebu risg eisiau i asiantaethau eraill gymryd rhan ond bod trosedd wedi'i ddatgelu, dylid ymgynghori â'r Heddlu i drafod ac ystyried sut i sicrhau bod yr oedolyn sy'n wynebu risg yn cael ei amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod.
- d) Ystyried unrhyw gofnodion o gysylltiad blaenorol neu gyfredol â'r oedolyn sy'n wynebu risg ac unrhyw aelodau eraill o'r teulu gan asiantaethau statudol, sy'n gymesur â'r ymholiad neu asesiad.
- dd) Dylid cwblhau Rhestr Wirio Adnabod Risg Cam-drin Domestig, Stelcio a Thrais ar Sail Anrhydedd (DASH) gyda'r oedolyn sy'n wynebu risg oni bai nad yw'n bosibl gwneud hynny. Fodd bynnag, rhaid defnyddio barn broffesiynol, a gellir anfon adroddiad heb gydsyniad.
- e) Cyfeiriad at [Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth \(MARAC\)](#) a nodir gan DASH.
- f) Cynllunio trafodaethau dros y ffôn neu gyfarfodydd sy'n cynnwys yr oedolyn sy'n wynebu risg a/neu'r sawl sy'n llunio adroddiadau lle bo'n berthnasol.
- ff) Rhaid i bob trafodaeth a phenderfyniad cynllunio gael eu dogfennu'n briodol.

Mae canllawiau pellach ynghylch ymholiadau ar gael yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru

Os bydd unrhyw anghytundeb rhwng gweithwyr proffesiynol ynghylch y penderfyniad, dylid cyfeirio'r mater at [Ganllaw Ymarfer Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol Gwent](#)

Asesiad Risg DASH

Dylai pob ymarferydd sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol ag oedolion sy'n wynebu risg gael eu hyfforddi i gwblhau'r Pecyn Cymorth Dangosydd Risg (DASH) lle nodir bod oedolyn sy'n wynebu risg mewn sefyllfa o gam-drin domestig. Dylai ymarferwyr geisio arweiniad gan y rheolwyr neu'r ganolfan ddiogelu os ydynt yn anghyfarwydd â'r broses.

Mae'r offeryn DASH ar gyfer pob asiantaeth sy'n gweithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a cham-drin ar sail anrhydedd.

Gellir dod o hyd i offeryn asesu risg DASH yn [Rhestr Gwirio Asesiad Risg Safe Lives/DASH](#)

Y categorïau risg cydnabyddedig a ddefnyddir gan Heddlu Gwent yw safonol, canolig ac uchel:

Safonol	Nid yw'r dystiolaeth gyfredol a'r dangosyddion risg yn dangos pa mor debygol yw hi o achosi niwed difrifol h.y., nid oes unrhyw gynnydd yn nifrifoldeb yr amllder.
Canolig	Mae yna ddangosyddion risg adnabyddadwy o niwed difrifol. Mae gan y troseddwr y potensial i achosi niwed difrifol ond mae'n annhebygol o wneud hynny oni bai bod newid mewn amgylchiadau, er enghraifft methu â chymryd meddyginiaeth, colli llety, perthynas yn chwalu a chamddefnyddio cyffuriau neu alcohol.
Uchel	Mae yna ddangosyddion risg adnabyddadwy o niwed difrifol. Gallai'r digwyddiad posibl ddigwydd unrhyw bryd a byddai'r effaith yn ddifrifol. Mae risg o niwed difrifol yn risg sy'n bygwth bywyd a/neu'n drawmatig ac y gellir disgwyl i adferiad, boed yn gorfforol neu'n seicolegol, fod yn anodd neu'n amhosibl. Yn ogystal, dylid ystyried cynnydd sylweddol mewn difrifoldeb neu amllder digwyddiadau fel risg uchel. Gall barn broffesiynol yr heddwys sy'n adolygu hefyd nodi achosion risg uchel.

Rhaid i bob dioddefwr, boed yn cael ei asesu fel Uchel, Canolig neu Safonol, dderbyn cyngor cynllunio diogelwch a diogelu. Dylid teilwra hwn i fod yn bwrpasol i anghenion unigol y dioddefwr.

Swyddogaeth MARAC yw hwyluso, monitro a gwerthuso'n effeithiol y broses o rannu gwybodaeth er mwyn galluogi camau priodol i gael eu cymryd i gynyddu diogelwch y cyhoedd.

Dylai ymarferwyr ar draws yr holl asiantaethau gael hyfforddiant i lefel sy'n dibynnu ar eu rôl a'u cyfrifoldebau, ar gwblhau offer asesu risg DASH ac i ddeall y meini prawf ar

gyfer adroddiad i MARAC.

Rhaid i wasanaethau cymdeithasol oedolion ym mhob Awdurdod Lleol enwebu un pwynt cyswllt i gynrychioli proses MARAC. Dylai holl staff eu hasiantaeth wybod pwy yw'r cynrychiolwyr MARAC.

Atodiad 1

Manylion cyswllt ac atgyfeirio

Os oes angen sylw/presenoldeb yr heddlu neu sylw meddygol ar frys, ffoniwch: 999

Ymholiadau'r heddlu ffoniwch: 101

I adrodd am bryderon Oedolion mewn Perygl i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ([ffurflen Dyletswydd i Adrodd](#)), cysylltwch â'r awdurdod lleol perthnasol:

Blaenau Gwent
Ffôn: 01495 315700
E-bost: DutyTeamAdults@blaenau-gwent.gov.uk

Caerffili
Ffôn: 0808 100 2500
E-bost: IAAAdults@caerphilly.gov.uk

Torfaen
Ffôn: 01495 762200
E-bost: socialcarecalltorfaen@torfaen.gov.uk

Casnewydd
Ffôn: 01633 656656
E-bost: firstcontact.adults@newport.gov.uk or pova.team@newport.gov.uk

Sir Fynwy
Ffôn: 01873 735492
E-bost: MCCadultsafeguarding@monmouthshire.gov.uk

Manylion Cyswllt Gwasanaethau Arbenigol Lleol Gwent

Barnardos Opening Closed Doors 01633 251192
www.barnardos.org.uk/wales

BAWSO 01633 213213
www.bawso.org.uk

Cyfannol – Cymorth i Fenywod 03300 564456
www.cyfannol.org.uk
info@cyfannol.org.uk

Ymgynghorwyr Cam-drin Domestig Annibynnol Gwent (IDVA)
gwentidavaservice@newport.gov.uk

Hafan Cymru www.hafancymru.co.uk
enquiries@hafancymru.co.uk

Gwasanaethau Cymorth Trais Rhywiol Horizon 03300 564456
www.horizonsvs.org.uk
horizon@cyfannol.org.uk

Llamau 02920860255
www.llamau.org.uk
safercaerphilly@llamau.org.uk

Melo Cymru
[Mhttps://www.melo.cymru/helplines-and-support/](https://www.melo.cymru/helplines-and-support/)

New Pathways 01633 250205
www.newpathways.org.uk

Gwasanaeth Cam-drin Domestig Phoenix 01495 291202
www.phoenixdas.co.uk

Cymorth i Ddiodefwr 0300 303 5638
www.victimsupport.org.uk www.victimsupport.org.uk/resources/gwent/